## Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (139)

## Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mawrth, 24 Mai 2005

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Atebwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**....................................**

**2.48pm**

**Cwestiwn Brys**

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ddatganiad ar golli swyddi yn Deeside Furniture ym Maes-glas.**

**....................................**

**3.00pm**

**Datganiad Busnes**

**Cytunwyd ar y datganiad busnes.**

**....................................**

**3.07pm**

**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar Anweithgarwch Economaidd**

**....................................**

***Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni’n syth.***

***3.36pm***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14**
**Rheoliadau Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion 2005**

NDM2455 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

1. Yn cymeradwyo’r Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 17 Mai 2005; a

2. Yn nodi’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 17 Mai 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

***Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni’n syth.***

***3.37pm***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14**
**Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) (Diwygio) 2005**

**NDM2456 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

1. Yn cymeradwyo’r Rheoliadau drafft, Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) (Diwygio) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 17 Mai 2005; a

2. Yn nodi’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at aelodau’r Cynulliad ar 17 Mai 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

**....................................**

***Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni'n syth.***

***3.38pm***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

**NDM2457 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2005; a; b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ebrill 2005.

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005.

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y gyflwynwyd i'r Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ebrill 2005; a
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005.

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Mai 2005 ynghylch y Gorchymyn Drafft, Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005.ii) yr arfarniad rheoliadol

a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005.

4. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005; a

b) yn cymeradwyo bod Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005.

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005.

5. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Trefniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygio Amrywiol) (Cymru) 2005, a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Trefniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygio Amrywiol) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005.
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**3.39pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005**

NDM2458 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

NDM2459 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Mai 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005, a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005.
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005, ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Mai.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**......................................**

**3.42pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynhyrchu Colagen Buchol y Bwriedir i Bobl ei Fwyta yn y Deyrnas Unedig (Cymru) 2005**

NDM2460 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynhyrchu Colagen Buchol y Bwriedir i Bobl ei Fwyta yn y Deyrnas Unedig (Cymru) 2005
y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ebrill 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

NDM2461 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynhyrchu Colagen Buchol y Bwriedir i Bobl ei Fwyta yn y Deyrnas Unedig (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynhyrchu Colagen Buchol y Bwriedir i Bobl ei Fwyta yn y Deyrnas Unedig (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ebrill 2005.
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**.....................................**

**3.46pm**
**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru**

NDM2462 David Melding (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn rhoi cyfarwyddyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru i beidio â chyflwyno ffioedd ychwanegol yng Nghymru ac i sicrhau bod Sefydliadau Addysg Uwch yn cael eu hariannu’n llawn.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt 1 newydd:
Yn credu mai hawl yn hytrach na braint yw addysg ac yn condemnio'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan am gyflwyno camau a fydd yn cynyddu’n ddifrifol faint o ddyled fydd gan fyfyrwyr gradd wrth iddynt adael Addysg Uwch.

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**
Dileu popeth ar ol "Cynulliad Cenedlaethol Cymru:" a rhoi yn ei le:
yn gresynu at unrhyw ymdrech i anwybyddu casgliadau Comisiwn arbenigol Rees drwy lunio casgliadau cyn cyhoeddi'r adroddiad, ac yn edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiad hwnnw a'r argymhelliad clir y bwriada Comisiwn Rees ei wneud, yn ôl yr hyn a ddywed.

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru)**
Dileu ‘yng Nghymru" a rhoi "i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru"

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru) - TYNNWYD YN ÔL**
Dileu popeth ar ôl 'ffioedd ychwanegol yng Nghymru' a rhoi:
'ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu'r drefn ffioedd dysgu sy'n bodoli ar hyn o bryd ac ailgyflwyno lefel ddigonol o grantiau cynhaliaeth i fyfyrwyr.'

**Gwelliant 5 - David Melding (Canol De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl "ac" a rhoi yn ei le: "i sicrhau cyllid sy'n gydradd â'r hyn a geir mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn Lloegr".

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod Sefydliadau Addysg Uwch yn cael eu cyllido hyd at yr un lefel â sefydliadau tebyg yn Lloegr, gan gyflwyno fframwaith ariannu i Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ar gyfer y 10 mlynedd nesaf erbyn mis Mehefin, 2005.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn condemnio'r Llywodraeth Lafur Newydd yn y Cynulliad Cenedlaethol am beidio â chyfarwyddo'r Athro Teresa Rees i ystyried ateb 'dim-ffioedd' i Gymru.

**Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu bod lefel dyled myfyrwyr yn rhwystro llawer o bobl ifanc rhag mynd i Addysg Uwch.

**Gwelliant 9 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno dewisiadau cyllido i'r Cynulliad Cenedlaethol eu hystyried.

**Gwelliant 10 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am ddadansoddiad addysgol annibynnol yng Nghymru.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 59
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 59
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 59
**Derbyniwyd Gwelliant 3**

**Tynnwyd Gwelliant 4 yn ôl**

**Gwelliant 5**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 59
**Derbyniwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 59
**Derbyniwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 59
**Derbyniwyd Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 59
**Derbyniwyd Gwelliant 8**

**Gwelliant 9**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 59
**Derbyniwyd Gwelliant 9**

**Gwelliant 10**
O Blaid 12; Ymatal 0; Yn erbyn 47; Cyfanswm 59
**Gwrthodwyd gwelliant 10**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 59
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**......................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.48pm**

**......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm**

**ddydd Mercher, 25 Mai 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 20 Mai 2005**

Statement pursuant to Standing Order 21.16 Wales Millennium Centre - LD3783 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

**Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 17 Mai 2005**

LC1087 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 - LD3769

LC1088 - Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2005 - LD3770

LC1089 - Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Esboniadau ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol) 2005 - LD3771